

## CYFARFOD Y CYNGOR 23 HYDREF 2019

### DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG SYDD WEDI'I AMLINELLU YN EITEM 10(B) O AGENDA'R CYNGOR

Yn unol â Rheol Weithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau'r Cynghorwyr S Pickering(Cynigydd) a W Treeby (Eilydd); G Hughes, G Caple, L. M. Adams, D. R. Bevan, J. Bonetto, H Boggis, S. Bradwick, J Brencher, A Calvert, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L De- Vet, J Elliott, S.Evans, M Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Powell, S Rees, A. Roberts, J. Rosser, G Stacey, M Tegg, G Thomas, R K Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo:

Bu'r achlysuron mewn pyllau padlo a drefnwyd gan grwpiau gwirfoddol dros yr haf yn boblogaidd iawn gyda phlant a'u rhieni. [Ychwanegu – O ganlyniad, bydd y Cyngor hwn yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol i ddarparu pecyn cymorth i aros ar agor yn ystod cyfnod gwyliau'r ysgol, sy'n adlewyrchu'r trafodaethau parhaus sy'n mynd rhagddynt.] [Dileu – O ganlyniad i hyn, dylai'r Cyngor hwn ystyried neilltuo cyllid er mwyn cynorthwyo â'r gost o gyflogi achubwyr bywyd am 6 wythnos haf nesaf fel bod modd i bob pwll, yn ddieithriad, aros ar agor ar hyd gwyliau'r ysgol.]

Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cabinet ar y materion sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn. [Ychwanegu - Dylai'r adroddiad hwn adlewyrchu sut y mae modd i'r Cyngor gefnogi amgylchiadau unigol cyfleusterau penodol a pharodrwydd grwpiau cymunedol.]

#### **Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:**

*Bu'r achlysuron mewn pyllau padlo a drefnwyd gan grwpiau gwirfoddol dros yr haf yn boblogaidd iawn gyda phlant a'u rhieni. O ganlyniad, bydd y Cyngor hwn yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol i ddarparu pecyn cymorth i aros ar agor yn ystod cyfnod gwyliau'r ysgol, sy'n adlewyrchu'r trafodaethau parhaus sy'n mynd rhagddynt.*

*Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i adroddiad Swyddog gael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Cabinet ar y materion sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn. Dylai'r adroddiad hwn adlewyrchu sut y mae modd i'r Cyngor gefnogi amgylchiadau unigol cyfleusterau penodol a pharodrwydd grwpiau cymunedol.*